Estyn | Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gymraeg Penalltau

Ysgol Penalltau
Cwm Calon
Penallta
Ystrad Mynach
CF82 6AP

Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2026

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg

a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Gymraeg Penalltau

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gymraeg Penalltau |
| Awdurdod lleol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Categori ysgol yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg | Cyfrwng Cymraeg yn unig |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 247 |
| Disgyblion o oedran ysgol statudol | 187 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 31 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 21.7%) | 15.1% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 9.2%) | 2.7% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 5.3% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Partner arweiniol ar gyfer Addysg gychwynnol athrawon | Nac ydy |

| | |
|---|---|
| Dyddiad penodi'r pennaeth | Medi 2024 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 09/10/2017 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 22/06/2026 |

Daw'r data hwn o ddata diweddaraf y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgyblion. Efallai byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol

## Crynodeb

Mae arweinyddiaeth effeithiol y pennaeth a'r dirprwy bennaeth, ynghyd â chefnogaeth staff cydwybodol, yn meithrin lles, gofal a chymorth disgyblion yn hynod effeithiol. Maent yn adnabod disgyblion yn dda ac mae ymdeimlad cartrefol a chynhwysol yn cefnogi disgyblion i arddel agweddau cadarnhaol at eu dysgu. Mae gan arweinwyr ddealltwriaeth gadarn o gryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w gwella.

Mae bron bob disgybl yn ymddwyn yn dda yn ystod eu gweithgareddau, wrth ddysgu'n annibynnol, ac wrth chwarae â'u ffrindiau. Gwna'r disgyblion ddefnydd gwerthfawr o'r ardaloedd dysgu allanol, gan gynnwys y Goedlan, sy'n cyfrannu at eu lles a'u brwdfrydedd i ddysgu.

Mae athrawon yn sicrhau bod y profiadau dysgu yn ennyn a chynnal diddordeb disgyblion yn llwyddiannus. Maent yn cefnogi disgyblion i ddatblygu eu medrau dysgu annibynnol o oedran ifanc sy'n cynnwys dewis dulliau buddiol o gyflwyno'u gwaith, a chynnig syniadau am weithgareddau yr hoffent eu cwblhau.

Mae gweithgareddau ymarferol ar draws y meysydd dysgu yn cyfoethogi dealltwriaeth disgyblion o'r themâu yn dda ac yn cefnogi'r rhan fwyaf i wneud cynnydd cadarn ar draws llawer o fedrau. Er hyn, nid yw cywirdeb, mynegiant, na rhuglder medrau darllen Cymraeg disgyblion wedi datblygu i'r un graddau â'u medrau darllen Saesneg.

Yn ystod sesiynau dysgu, mae llawer o staff yn defnyddio holi pwrpasol ac yn cynnig adborth llafar effeithiol i gefnogi dysgu disgyblion. Yn yr arferion cryfaf, mae staff yn ymateb yn adeiladol i atebion disgyblion ac yn addasu'r ddarpariaeth yn briodol, gan hybu cynnydd yn y dysgu yn llwyddiannus. Fodd bynnag, cyfyngedig yw'r cyfleoedd i ddisgyblion ymateb i adborth staff i wella eu gwaith.

Mae gan staff berthnasoedd cadarnhaol â rhieni, gan gynnwys rhieni disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Mae staff yn cefnogi'r disgyblion sydd angen cefnogaeth bellach yn fwriadus. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion sydd ag ADY yn gwneud cynnydd cryf yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Mae'r modd y mae staff yn gweithio'n effeithiol gyda disgyblion a'u teuluoedd i wella presenoldeb a phrydlondeb yn gryfder.

Mae rhieni'n mynegi balchder bod eu plant yn mynychu'r ysgol groesawgar hon ac yn gwerthfawrogi'r ystod eang o brofiadau, ynghyd â'r gofal a'r sylw arbennig i hyrwyddo lles a ddarperir gan yr ysgol.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i helpu'r ysgol barhau i wella

A1 Datblygu medrau darllen Cymraeg disgyblion

A2 Cysoni'r arferion effeithiol ar gyfer rhoi adborth i ddisgyblion er mwyn eu cefnogi ymhellach i wella eu gwaith.

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif werthusiad

Mae arweinyddiaeth gadarn y pennaeth, gyda chefnogaeth hynod effeithiol y dirprwy bennaeth, yn gosod cyfeiriad strategol clir i ddatblygiad yr ysgol ac yn creu diwylliant sy’n hyrwyddo gwelliant parhaus. Mae arweinwyr yn arddel eu gweledigaeth yn glir i ddatblygu amgylchedd ddysgu ble mae ‘parch, parodrwydd a pherthyn’ yn greiddiol i holl gymuned yr ysgol.

Mae gan arweinwyr ddisgwyliadau uchel o’u hunain, y staff a’r disgyblion ac maent yn hyrwyddo ethos gofalgar, gweithgar a Chymreig sy’n treiddio trwy holl weithgareddau’r ysgol. Mae staff yn cydweithio’n effeithiol gan fodelu brwdfrydedd heintus at waith sy’n esiampl gadarnhaol i ddisgyblion. Mae hyn yn cefnogi awyrgylch cynnes sy’n hybu ymdeimlad o berthyn ac yn sicrhau bod y rhan fwyaf o’r disgyblion yn hapus i droi at unrhyw aelod o staff a’u cyfoedion, yn ôl y galw.

Mae’r cwricwlwm wedi ei gynllunio’n  ofalus ac mae athrawon yn darparu gweithgareddau dysgu sy’n datblygu ymdeimlad disgyblion o gynefin yn llwyddiannus drwy ystyried y cyd-destun lleol, Cymru a'r byd ehangach yn bwrpasol. Mae ymwelwyr perthnasol yn codi dyheadau disgyblion ac yn cyfoethogi eu profiadau dysgu. Mae cyfleoedd bwriadus i ddisgyblion  ddylanwadu ar eu dysgu. O ganlyniad, maent yn datblygu fel dysgwyr annibynnol sy’n llwyddo i ddatrys problemau yn hyderus.

### Ciplun: Datblygu annibyniaeth ac agweddau at ddysgu'r disgyblion ieuengaf

Mae’r ddarpariaeth ar gyfer y disgyblion ieuengaf yn diwallu eu anghenion yn effeithiol ac yn sicrhau eu bod yn gwneud cynnydd da. Mae staff yn rhoi pwyslais cryf ar ddarparu profiadau dysgu cynnar sy’n hyrwyddo datblygiad cymdeithasol a chorfforol disgyblion ynghyd â’r medrau maent eu hangen i fod yn barod i ddysgu. Wrth i’r medrau hyn ddatblygu, darperir cyfleoedd cynyddol i’r disgyblion gyfrannu eu syniadau a dylanwadu ar eu gweithgareddau a’u profiadau yn yr ardaloedd dysgu. Mae hyn, yn ei dro, yn hybu eu brwdfrydedd a’u hymgysylltiad â dysgu. Mae staff yn sicrhau bod y ddarpariaeth yn adeiladu’n effeithiol ar brofiadau blaenorol wrth i’r disgyblion symud o’r dosbarth Meithrin i’r camau nesaf yn eu dysgu.

Mae staff yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol ynghyd â chyfleoedd i’w cymhwyso ar draws y cwricwlwm. Mae ystod o weithgareddau ysgogol yn adeiladu ar fedrau dysgu blaenorol disgyblion yn effeithiol.

Mae’r ddarpariaeth yn sicrhau bod y disgyblion ieuengaf yn datblygu eu gallu i siarad Cymraeg yn fuan. Mae hyn yn gryfder amlwg ac yn cael effaith gadarnhaol ar falchder disgyblion tuag at yr iaith a’u treftadaeth. O oedran cynnar, mae medrau darllen Cymraeg

llawer o ddisgyblion yn datblygu'n gadarn. Mae medrau mwyafrif y disgyblion yn parhau i ddatblygu wrth iddynt symud i fyny'r ysgol. Er hyn, nid yw medrau darllen Cymraeg disgyblion mor ddatblygedig ag ydynt yn eu darllen Saesneg.

Mae staff yn darparu cyfleoedd addas i ddisgyblion ddatblygu eu medrau mathemateg. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau rhifedd yn effeithiol ar draws y cwricwlwm ac yn eu cymhwyso'n hyderus mewn ystod o gyd-destunau.

Mae medrau digidol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n llwyddiannus. Maent yn defnyddio'r medrau hyn yn bwrpasol i gefnogi eu dysgu ar draws y meysydd dysgu a phrofiad. Mae'r disgyblion ieuengaf yn hyderus wrth gyfarwyddo tegan rhaglenadwy i symud ar hyd llwybr penodol. Mae'r disgyblion hynaf yn datblygu eu medrau trin data, er enghraifft wrth ddefnyddio taenlenni a chreu cyflwyniadau aml-gyfrwng ar gyfer ystod o ddibenion.

Mae staff yn darparu cyfleoedd bwriadus i ddatblygu medrau creadigol y disgyblion hynaf, er enghraifft wrth iddynt efelychu arddull arlunydd enwog. Mae'r ddarpariaeth yn cynnwys cyfleoedd i'r disgyblion ieuengaf arbrofi gyda creu seiniau gydag ystod o offerynnau cerdd yn yr ardaloedd allanol. Mae sesiynau ysgogol yn y goedlan yn darparu profiadau dysgu effeithiol sy'n hybu datblygiad medrau corfforol a chymdeithasol disgyblion ynghyd â'u hymdeimlad o werthfawrogi'r amgylchedd naturiol o'u cwmpas.

Mae'r berthynas waith gynhaliol sy'n bodoli rhwng disgyblion a staff yn gryfder. Mae gan staff ddisgwyliadau uchel ar gyfer ymddygiad disgyblion ac maent yn creu amgylchedd sy'n annog parodrwydd i ddysgu a mwynhad. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cydweithio'n effeithiol ac yn cefnogi ei gilydd i oresgyn heriau a, thrwy hynny, maent yn datblygu gwytnwch a'r gallu i ddyfalbarhau.

Yn ystod sesiynau dysgu, mae llawer o staff yn holi disgyblion a chynnig adborth llafar yn fedrus sy'n hybu cynnydd disgyblion yn bwrpasol. Yn yr arferion gorau, maent yn ymateb i sylwadau disgyblion ac yn addasu'r ddarpariaeth yn fwriadus. Fodd bynnag, prin yw'r cyfleoedd i ddisgyblion  ystyried adborth staff a gwella eu gwaith ysgrifenedig.

Mae staff yn diwallu anghenion lles a dysgu'r disgyblion yn fwriadus o fewn yr ethos cynhwysol sy'n greiddiol i'r ddarpariaeth. Mae staff yn adnabod disgyblion yn drwyadl ac yn darparu gweithgareddau pwrpasol sy'n cefnogi'r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), i wneud cynnydd cadarn.

Mae cydweithio â theuluoedd disgyblion ADY a sefydlu llecyn penodol y 'nyth' sy'n teilwra profiadau dysgu ar eu cyfer wedi cael effaith gadarnhaol ar eu lles a'u hapusrwydd a gwella eu cyfraddau presenoldeb a phrydlondeb.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau personol a chymdeithasol cyfoethog drwy fod yn aelodau o amryw bwyllgorau yn yr ysgol sy’n meithrin cydweithio a dangos empathi at eraill. Er bod disgyblion yn cymryd eu cyfrifoldebau o ddifri ac yn cychwyn datblygu medrau arwain defnyddiol, prin yw eu dylanwad ar welliannau a bywyd yr ysgol ar hyn o bryd o ganlyniad i oedolion yn gor-arwain. Mae bron bob disgybl yn cymryd rhan mewn gweithgareddau iechyd a lles bwriadus ac maent yn deall pwrpas cadw’n iach a’r effaith y mae hyn yn ei chael ar y corff a’r meddwl.

Mae arweinwyr yn hybu ethos o welliant parhaus yn llwyddiannus. Maent yn sicrhau bod trefniadau cadarn ar gyfer gwerthuso ansawdd y ddarpariaeth a’r effaith ar gynnydd disgyblion.

Mae’r pennaeth a’r athrawon yn gwneud defnydd hynod effeithiol o ystod dda o dystiolaeth uniongyrchol sy’n cefnogi dealltwriaeth gadarn o gryfderau’r ysgol a’r meysydd i’w gwella. Mae’r llywodraethwyr yn gefnogol i waith yr ysgol. Maent yn adnabod yr ysgol a’r gymuned y mae’n ei gwasanaethu yn dda. Maent yn chwarae rhan uniongyrchol ym mhrosesau gwella’r ysgol trwy fod yn rhan ganolog o deithiau dysgu a thrafod adborth yn dilyn craffu ar waith disgyblion. O ganlyniad, mae eu hadnabyddiaeth o gryfderau’r ysgol a’r meysydd i'w datblygu yn drylwyr.

Mae’r pennaeth a’r llywodraethwyr yn monitro'r gyllideb yn ofalus. Maent yn sicrhau bod penderfyniadau gwariant yn cysylltu’n synhwyrol â blaenoriaethau'r ysgol ar gyfer gwelliant, fel buddsoddiadau yn ardal y goedlan, er enghraifft. O ganlyniad, mae’r gefnogaeth yn darparu cymorth bwriadus i ddisgyblion  wella’u dysgu ac i gefnogi eu lles emosiynol.

Mae arweinwyr wedi sefydlu diwylliant cadarnhaol sy’n darparu cyfleoedd dysgu proffesiynol bwriadus i’r holl staff. Er enghraifft, mae aelod o staff wedi ymgymryd â rôl cefnogi cydlynydd anghenion ychwanegol i sicrhau dilyniant a pharhad yn y profiadau a gynigir i ddisgyblion ar draws yr ysgol. Mae’r pennaeth yn annog athrawon i ddatblygu medrau arwain gan gynnwys mynychu hyfforddiant arweinyddiaeth yr awdurdod lleol. Mae staff yn rhannu arferion effeithiol gydag ysgolion lleol yn achlysurol, sy’n darparu cyfleoedd pwrpasol iddynt ddathlu a rhannu eu gwaith gyda gweithwyr proffesiynol eraill. Er enghraifft, mae aelod o’r tîm wedi rhannu arferion gydag ysgolion yr ardal am sefydlu a rhannu gweledigaeth ysgol gyfan.

Mae arweinwyr a staff yn sefydlu cysylltiadau cryf â rhieni a’r gymuned ehangach. Er enghraifft, yn ystod yr wythnos iechyd a lles, mae disgyblion yn datblygu eu  medrau corfforol trwy ymgymryd â sesiynau gydag ystod o glybiau chwaraeon lleol. Yn ogystal, yn rhan o’r wythnos, mae aelodau’r gymuned yn trafod eu gwaith a’u profiadau gyda disgyblion sydd, yn ei dro, yn hybu eu dyheadau nhw ar gyfer y dyfodol. Mae rhieni’n hynod falch o’r ysgol ac yn gwerthfawrogi’r gofal arbennig a ddarperir.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau’r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli’r safle yn rhoi unrhyw achos i bryderu.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, gan gynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni/gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol / aelodau'r pwyllgor rheoli trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni/gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad.

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â’r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae’r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae’r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu’n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 24/08/2026